

Chwarel Tŷ Llwyd - Diweddariad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymwybodol iawn o bryderon sydd ar led yn y gymuned am hen safle Chwarel Tŷ Llwyd.

Mae'r cylchlythyr hwn wedi'i greu i roi gwybodaeth ddefnyddiol i drigolion am hanes y safle, y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma, yn ogystal â chynlluniau parhaus i wneud gwelliannau pellach yn y dyfodol.

Yn anffodus, mae'n ymddangos bod llawer o wybodaeth anghywir sy'n gallu bod yn gamarweiniol yn y gymuned, felly, mae'r Cyngor yn awyddus i ddweud y gwir a darparu diweddariad ffeithiol.

Y stori hyd yn hyn

Cafodd hen Chwarel Tŷ Llwyd ei ddefnyddio yn y gorffennol i gael gwared ar wastraff diwydiannol gan gwmni preifat rhwng 1969 a 1972. Roedd hyn yn cynnwys plastigion, tuniau, beiros, gwastraff ffatri a ffretur cyffredinol, gwastraff cemegol, gan gynnwys Biffenylau Polychlorinedig, a drymiau.

Pan gafodd y domen ei chau ym 1972, cafodd y safle ei orchuddio â siâl a llwch carreg ac yna cafodd haen o uwchbridd a hadau ei hychwanegu. Ym 1990, cymerodd Cyngor Bwrdeistref Islwyn berchnogaeth ar y safle. Cafodd cap clai ei osod dros y safle i leihau faint o ddŵr glaw sy'n mynd drwy'r wyneb a chafodd ffos fas wedi'i leinio â choncrit ar hyd y ffin uchaf ei gosod i ddargyfeirio unrhyw ddŵr wyneb o amgylch y domen a'i atal rhag mynd i mewn i'r mäs gwastraff.

Dangosodd gwaith monitro hanesyddol nad oedd y safle'n bodloni'r diffiniad cyfreithiol o dir halogedig. O ganlyniad, ym mis Rhagfyr 2013, cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru bod y gwaith o fonitro'r safle yn gallu cael ei wneud yn llai aml, ond mae monitro ad hoc wedi parhau yn ystod cyfnodau o law trwm. Dros y blynyddoedd diweddarach (ers tua 2015), rydyn ni wedi dechrau profi cyfnodau hir o dywydd gwlyb drwy gydol misoedd y gaeaf, ac mae hyn, weithiau, yn achosi i lefelau dŵr daear godi yn y chwarel gan achosi i ddŵr dorri allan ar wyneb y ddaear ar safle Tŷ Llwyd a safle coetir Pant-y-fynnon isod. Wrth i'r dŵr daear godi o fewn y chwarel, mae'n codi unrhyw gemegau a sylweddau hylifol eraill sydd wedi'u dyddodi o'r blaen ar y safle, felly, pan fydd y dŵr yn cyrraedd yr wyneb, weithiau mae'n cael ei halogi. Trwytholch yw'r enw ar y dŵr halogedig hwn.

Oherwydd bod trwytholch yn torri allan yn amlach yn ystod misoedd y gaeaf, mae'r Cyngor, ar hyn o bryd, yn gweithio gyda'u hymgynghorwyr i lunio strategaeth

fonitro gadarn i gynnwys dŵr wyneb (nentydd o fewn yr ardal), dŵr daear (o dyllau turio ar safle Tŷ Llwyd a safle coetir Pant-y-fynnon) a samplu pridd yn ogystal â monitro anwedd yn, ac o amgylch, safle Tŷ Llwyd a safle coetir Pant-y-fynnon. Bydd y gwaith monitro a samplu hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio asesiad risg ar gyfer y safle er mwyn i ni asesu unwaith eto a yw'r safle'n bodloni'r diffiniad cyfreithiol o dir halogedig ai peidio.

Pa waith sydd wedi'i wneud?

Ym mis Mai 2021, comisiynodd y Cyngor gontractwyr i wneud gwaith gwella draenio ar safle'r chwarel ac yn y coetir islaw i helpu rheoli'r trwytholch yn ystod cyfnodau hir o dywydd gwlyb.

Cafodd y gwaith ei gynllunio i sicrhau bod y dŵr wyneb sy'n llifo i lawr ochr safle'r chwarel yn cael ei gadw'n hollol ar wahân i unrhyw drwytholch sy'n gallu digwydd yn ystod glaw trwm. Mae'r cynllun wedi llwyddo i gyflawni hyn.

Cafodd y cwlfer dŵr wyneb sy'n mynd o dan y ffordd ei atgyweirio a'i uwchraddio hefyd.

Cafodd y gwaith gwella ei gynllunio i gasglu cymaint o'r trwytholch â phosibl o'r safle ac o'r coetir o dan y safle mewn un lleoliad. Ar ôl ei gasglu, mae'r trwytholch ac unrhyw ddŵr wyneb sy'n mynd i mewn i'r system (glaw) yn cael ei basio dros gyfres o raeadrau bach iawn sy'n cynnwys creigiau gyda'r nod o darfu cymaint â phosibl ar y dŵr. Enw ar y system ddraenio hon yw siambr awyru. Pwrpas anfon y dŵr drwy'r siambr awyru yw annog rhai o'r cemegau yn y dŵr i droi'n anwedd sy'n gwella ansawdd y dŵr cyn iddo gael ei anfon yn ôl i'r ddaear. Er mwyn eglurder llwyr, dim ond ar gyfer cemegau penodol y bydd y siambr awyru yn gweithio.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ym mis Ionawr eleni, achosodd y cyfnod hir o dywydd gwlyb i'r system ddraenio gael ei thagu a'i gorlwytho ac achosodd hynny, yn ei dro, i'r siambr awyru orlifo a thrwytholch yn rhedeg i lawr drwy goetir Pant-y-fynnon ac oddi ar y safle.

Cymerodd lechyd yr Amgylchedd bedwar sampl o'r dŵr a oedd yn gadael ein tir ac adrodd am y digwyddiad i Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydyn ni wedi rhannu canlyniadau ein samplau ni gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac rydyn ni'n deall eu bod nhw'n dal i ymchwilio i'r digwyddiad.

Buom ni'n trafod canlyniadau ein samplau ni ag lechyd Cyhoeddus Cymru ac, er bod rhai lefelau isel o halogion yn bresennol yn y samplau, nid oedd y rhain o grynodiad i achosi risg sylweddol i ieuchyd y cyhoedd. Ni chafodd unrhyw Biffenylau Polychlorinedig ei ddarganfod yn unrhyw un o'r samplau dŵr a llifodd y tu hwnt i ffin y safle.

Roedd cynrychiolwyr o'r Cyngor a Cyfoeth Naturiol Cymru i fod i gwrdd â thrigolion lleol y mis diwethaf i drafod y sefyllfa ddiweddaraf. Galwodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Sean Morgan, y cyfarfod i helpu mynd i'r afael â phryderon y gymuned a'r bwriad oedd cynnwys y ddau gynghorydd lleol, ynghyd ag 8 o drigolion lleol.

Cytunodd y Cyngor i wahodd dirprwyaeth fach, fel y byddai'r niferoedd yn hawdd eu trin ac i helpu'r cyfarfod i fod yn agored, yn ystyrlon ac yn adeiladol. Gofynnodd ni i'r cynghorwyr lleol roi enwau'r trigolion er mwyn i ni eu gwahodd nhw i'r cyfarfod, ond, yn anffodus, ni chafodd yr enwau hyn eu darparu a dywedodd y cynghorwyr wrth y Cyngor nad oedden nhw'n bwriadu bod yn bresennol ychwaith.

Cafodd y cylchlythyr hwn ei ddatblygu fel ffordd amgen o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion sy'n byw ger y safle.

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n ystyried gwaith gwella pellach ar y safle tirlenwi ei hun i leihau cyfanswm y dŵr sy'n mynd i mewn i'r siambr, gan ei helpu i ymdopi'n well yn ystod cyfnodau hir o dywydd gwlyb. Mae ymgynghorwyr y Cyngor hefyd yn ystyried opsiynau lefel uchel sy'n gallu cael eu datblygu i ymdrin â'r trwytholchion tymhorol yn Nhŷ Llwyd. Yn ogystal â hyn, rydyn ni hefyd yn cynnal trafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i asesu a oes angen trwydded gollwng dŵr ar y safle.

Mae'r coetir hefyd wedi cael ei ffensio i atal mynediad anawdurdodedig i'r safle sy'n dir preifat.

Yn ogystal â'r gwaith gwella, mae lechyd yr Amgylchedd a'u hymgynghorwyr yn y broses o gynllunio strategaeth samplu gadarn, i gyd-fynd â'r samplu sy'n digwydd fel mater o drefn ar adegau pan fo achosion o drwytholchi fel y mae'n cael ei ddisgrifio uchod.

Mae'r rownd gyntaf o samplu dŵr daear, dŵr wyneb a dŵr ffynnon wedi'i gynnal ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n adolygu'r canlyniadau ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i samplu a monitro'r safle am 12 mis i 18 mis arall. **Yn dilyn casglu'r data hwn, byddwn ni mewn sefyllfa i adolygu a yw'r safle'n bodloni'r diffiniad cyfreithiol o dir halogedig.** Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi i gyflwyno canfyddiadau'r Cyngor yn ddiweddarach.

Hoffen ni sicrhau trigolion, p'un a yw'r safle'n bodloni'r diffiniad cyfreithiol o dir halogedig ai peidio, fod y Cyngor wedi ymrwymo'n llwyr i reoli'r safle a gweithredu gwelliannau ar y safle pan fo angen.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r safle a'r ardal gyfagos yn ystod cyfnodau hir o dywydd gwlyb. Fodd bynnag, os ydych chi'n pryderu am y safle mewn unrhyw ffordd neu'n teimlo bod y safle yn gallu effeithio arnoch chi, mae croeso i chi gysylltu â:

Maria Godfrey ar 01443 811346 neu godfrm@caerffili.gov.uk

Ceri Davis ar 01443 811348 neu daviscj@caerffili.gov.uk (Mae Ceri yn gweithio dydd Mercher, Iau a Gwener yn unig)

GweinyddulA@caerffili.gov.uk

Hefyd, mae cyfres o gwestiynau cyffredin wedi'i datblygu i helpu mynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau neu bryderon ychwanegol sydd gennych chi ar wefan y Cyngor: **www.caerffili.gov.uk/ty-llwyd**

Os nad oes gennych chi fynediad at y rhyngwrdd a hoffech chi gael copi o'r cwestiynau cyffredin, mae croeso i chi ddefnyddio'r rhifau uchod i ofyn am gopi a byddwn ni'n eu postio atoch chi.

